



## Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

<b>Teitl / Darn o waith:</b>	Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
<b>Enw'r Gangen:</b>	Cangen Trawsnewid y System Anghenion Dysgu Ychwanegol, Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
<b>Adran:</b>	Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru
<b>Dyddiad:</b>	Gorffennaf 2018

# Chwe Cham at Sylw Dyledus



## **Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcanion?**

Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf') yn creu fframwaith statudol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc 0 i 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd y fframwaith newydd hwn yn disodli'r fframwaith statudol presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) ynghyd â'r drefn asesu a chynllunio ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anabledau dysgu (AAD) sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Yr amcanion yw creu:

- un fframwaith deddfwriaethol i gefnogi plant o oed ysgol gorfodol neu'n iau sydd ag ADY, a phobl ifanc hyd at 25 oed sydd ag ADY ac yn yr ysgol neu mewn addysg bellach;
- proses gydweithredol integredig o asesu a chynllunio sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
- system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chynghor, a datrys pryderon ac apeliadau.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Ddeddf yn cynnwys yr elfennau canlynol:

### Cyflwyno'r term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol'

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer y term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' a fydd yn disodli'r termau 'anghenion addysgol arbennig' ac 'anawsterau a/neu anabledau dysgu', ac mae'n caniatáu ar gyfer ei ddefnyddio mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc sydd ag ADY, sydd o oed ysgol gorfodol neu'n iau, neu sydd dros oed ysgol gorfodol ac mewn ysgol neu addysg bellach. At ddibenion y Ddeddf, diffinnir 'plentyn' fel person nad yw dros oed ysgol gorfodol, a diffinnir 'person ifanc' fel person sydd dros oed ysgol gorfodol ond o dan 25 oed.

Bydd defnyddio un term ar draws yr ystod oedran 0-25 yn tanlinellu cydlyniant y system newydd ac yn sicrhau mwy o degwch i ddysgwyr. Bydd hefyd yn helpu i osgoi rhywfaint o'r stigma sy'n gysylltiedig â'r termau presennol ac yn nodi toriad clir oddi wrth y systemau

presennol.

### Ystod oedran 0-25

Mae'r Ddeddf yn darparu bod yr un cynllun statudol yn cael ei roi i ddysgwyr ag ADY, sy'n 0 i 25 oed, p'un a ydynt o oed ysgol gorfodol neu'n iau, mewn chweched dosbarth neu mewn sefydliad addysg bellach. Bydd, felly, yn rhoi'r systemau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach ar sail fwy cyfartal a dylai wella'r broses bontio rhwng yr ysgol ac addysg ôl-16.

Bydd darpariaethau'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru sicrhau addysg neu hyfforddiant ôl-16 arbenigol lle mae'r cynllun datblygu unigol (CDU) yn nodi bod angen hyn er mwyn diwallu anghenion y dysgwr. Ni fydd y cyfrifoldeb hwn yn un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru, a bydd hyn yn gwella'r broses bontio drwy annog awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 i gydweithio er mwyn cynllunio ar gyfer darpariaeth leol sy'n berthnasol i anghenion unigol plant a phobl ifanc sydd ag ADY, sicrhau cefnogaeth, a gwella'r ddarpariaeth. Bydd hefyd yn fwy o gymhelliad i awdurdodau lleol wneud y cysylltiadau angenrheidiol rhwng adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn hwyluso'r broses i blentyn neu berson ifanc symud ymlaen yn effeithiol i addysg bellach.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wrth gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r Ddeddf. Mae hyn yn golygu y bydd awdurdodau lleol a chyrrff y GIG yn rhoi sylw i'r confensiynau wrth wneud penderfyniadau strategol yn unol â'r Cod ADY.

### Cynllun unedig

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno CDUau statudol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY.

Bydd y CDU yn disgrifio ADY y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Fel rheol, lle bydd ysgol neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru yn pennu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, bydd corff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad yn paratoi, yn cynnal ac yn adolygu CDU ar ei gyfer. Fel rheol, yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach hwnnw fydd yn darparu'r DDdY a nodir yn y CDU. Mae dyletswyddau ar awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd i baratoi a chynnal CDUau ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu hardal. Er enghraifft, yn yr achosion lle bydd yn rhaid i'r penderfyniad ynghylch union hyd a lled ADY plentyn neu berson ifanc, neu'r union DDdY sydd ei hangen, gael ei wneud y tu allan i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach; neu lle na fyddai'n rhesymol i gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach sicrhau'r DDdY y gallai fod ei hangen; neu lle nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynd i leoliad o'r fath (gan gynnwys y rheini sy'n mynd i ysgolion na chynhelir a lleoliadau blynyddoedd cynnar na chynhelir neu blant a addysgir gartref), byddai'r awdurdod lleol yn gyfrifol am benderfynu ar ADY, paratoi ac adolygu'r CDU (os yw hynny'n ofynnol yn achos person ifanc nad yw'n mynychu sefydliad addysg bellach neu ysgol a gynhelir yng Nghymru) a sicrhau'r DDdY o'i fewn. Y bwriad yw y bydd y Cod ADY yn darparu canllawiau ar achosion lle nad yw hi'n rhesymol efallai i ysgol neu sefydliad addysg bellach benderfynu ar ADY dysgwr neu sicrhau'r DDdY sydd ei hangen.

Yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am baratoi, cynnal ac adolygu CDUau plant ag ADY sydd dan ei ofal ac sydd mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru (p'un a yw o fewn eu hardal

nhw neu'n perthyn i awdurdod lleol arall).

Byddai'n rhaid adolygu CDUau unwaith bob 12 mis o leiaf, ac efallai y bydd angen eu hadolygu yn amlach, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Lle bydd dysgwr sydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r DDdY sydd wedi'i chynnwys yn y CDU – ond yn y pen draw, mater i'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU fyddai sicrhau'r ddarpariaeth honno. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried hefyd p'un a oes angen paratoi a chynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach; p'un a oes angen parhau i gynnal cynllun person ifanc; a ph'un a fydd angen cynnal cynllun person sydd dan gadwad, gan gynnwys plentyn dan gadwad, pan gaiff y person ei ryddhau.

Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â sefyllfa lle daw dyletswyddau i gynnal CDU i ben, a lle cânt eu trosglwyddo i gorff arall. Er enghraifft, gall corff roi'r gorau i gynnal CDU os bydd yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY bellach, ond mewn achos fel hwn, cyn iddo roi'r gorau i gynnal y cynllun, caiff y dysgwr gyfle i herio'r penderfyniad. Mae yna ddarpariaeth hefyd i'r dyletswyddau i gynnal CDU drosglwyddo i gorff arall, er enghraifft pan fydd plentyn neu berson ifanc yn symud i ysgol arall neu i ardal awdurdod lleol arall, neu'n mynd o'r ysgol i sefydliad addysg bellach.

Mae yna ddyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chadw plant neu bobl ifanc mewn llety cadw ieuencid perthnasol. Os nodir bod gan blentyn neu berson ifanc ADY yn ystod ei gyfnod yn y llety cadw, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol cartref baratoi CDU. Lle bydd hyn yn digwydd, a lle bydd gan blentyn neu berson ifanc CDU wrth gyrraedd llety cadw ieuencid perthnasol, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol cartref gadw'r CDU ar ei gyfer a threfnu DDdY briodol. Bydd hyn yn cynnwys achosion lle gosodwyd plentyn neu berson ifanc dan gadwad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a bydd Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, yn gallu sicrhau bod plant a phobl ifanc ag ADY sydd dan gadwad oherwydd iechyd meddwl gwael yn parhau i gael y DDdY sydd ei hangen arnynt. Gallai DDdY briodol fod yn wahanol i'r DDdY a nodir yn y CDU nawr ei fod mewn llety o'r fath. Pan gaiff y plentyn neu'r person ifanc ei ryddhau, efallai y bydd angen i awdurdod lleol gynnal y CDU.

#### Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy

Mae'r Ddeddf yn darparu bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau plant, eu rhieni a phobl ifanc yn ffurfio elfen hanfodol o'r system newydd ac yn pwysleisio mor bwysig yw hi bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl yn y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'u ADY a'r DDdY a ddarperir ar eu cyfer.

Bydd hyn yn rhoi sail statudol i bolisi presennol Llywodraeth Cymru o ganolbwyntio'n llawer mwy ar yr unigolyn dan sylw wrth nodi anghenion a champau priodol i ddiwallu'r anghenion hynny, a bydd yn helpu i sicrhau bod CDUau yn cael eu datblygu yn unol ag egwyddorion meddwl a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn hwnnw. Er mwyn hwyluso hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i roi gwybodaeth a chynghor i blant, pobl ifanc ac eraill am ADY a'r system a amlinellir yn y Ddeddf. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybod i'r bobl hynny ac eraill beth yw'r trefniadau hynny, gan sicrhau bod yr wybodaeth a'r cynghor hwn yn cael eu rhannu'n briodol a'u bod ar gael i bawb sydd eu hangen.

Er mwyn i blant a phobl ifanc allu arfer yn llawn eu hawl i apelio o dan y Ddeddf, neu gymryd rhan mewn gweithdrefnau datrys anghytundeb, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i gynnig gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant, pobl ifanc a'u cyfeillion achos. Gwasanaethau yw'r rhain sy'n cynnig cyngor a chymorth i blentyn, i berson ifanc neu i gyfaill achos plentyn, sy'n gwneud, neu'n bwriadu gwneud, apêl i'r Tribiwnlys Addysg ('y Tribiwnlys'); sy'n ystyried a ddylid apelio i'r Tribiwnlys; neu sy'n cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghytundeb, neu'n bwriadu gwneud hynny.

Fel rheol, bydd rhieni yn helpu plant sydd heb y gallu i ddeall eu CDU a gwybodaeth a dogfennau eraill a gyflwynir iddynt, yn ogystal â chyda'r penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'u ADY. Er mwyn darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle na fydd hyn yn digwydd efallai, mae'r Ddeddf yn darparu i gyfaill achos gael ei benodi ar gyfer dysgwyr o'r fath. Gall cyfaill achos gynrychioli a chefnogi'r plentyn a chymryd penderfyniadau a gweithredu ar ran y plentyn mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'u ADY a'u DDdY (yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau). Bydd plant sydd heb ddealltwriaeth ddigonol yn gallu defnyddio 'cyfaill achos', lle caiff un ei benodi gan y Tribiwnlys, i arfer ei hawliau o dan y Ddeddf. Diben hyn yw sicrhau bod modd arfer hawliau'r plant hyn hyd yn oed lle nad yw rhiant yn gweithredu er budd pennaf y plentyn.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn bosibl gwneud darpariaeth i unigolyn ymddangos ar ran parti fel rhan o apêl neu gais i'r Tribiwnlys. Byddai hyn yn cynnwys plentyn neu berson ifanc sydd â gallu digonol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog adolygu annibynnol plentyn sy'n derbyn gofal (yn ystyr adran 15 y Ddeddf) gael gwybod am benderfyniadau a wneir mewn perthynas ag ADY y plentyn, gan gynnwys penderfyniad gan awdurdod lleol nad oes gan y plentyn ADY bellach; a rhaid rhoi copi o CDU y plentyn iddo (gan gynnwys CDU diwygiedig).

### Dyheadau uchel a gwell deilliannau

Mae dynodi unigolyn (neu grŵp o unigolion) ar gyfer pob lleoliad i gydlynu cynlluniau ac ymyriadau sy'n ymwneud ag ADY a cheisio cymhwyso'n gyson a gwella safonau sy'n ymwneud â chynllunio, pennu targedau a chanolbwyntio ar ganlyniadau yn hollbwysig i ddatblygu diwylliant o ysgogi dyheadau uchel a gwell deilliannau. I'r perwyl hwn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod gan bob ysgol a gynhelir (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd a gynhelir, ond heb gynnwys ysgolion arbennig a gynhelir sydd wedi'u sefydlu'n benodol i gyflwyno DDdY) a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) dynodedig. Bydd y Cydlynnydd hwn yn disodli rôl y Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) anstatudol. Mae hefyd yn ehangu'r rôl i rai lleoliadau addysg nad oes ganddynt Gydlynnydd AAA neu rôl gyfatebol ar hyn o bryd efallai.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddynodi unigolyn – Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar – i gydlynu ei swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oed ysgol gorfodol nad ydynt eto mewn lleoliad a gynhelir. Rhagwelir y bydd yna elfen ataliol i'r rôl hon, er enghraifft drwy nodi'r plant y mae yna oedi yn eu datblygiad, a allai droi'n ADY oni bai bod yna ymyriadau cynnar priodol yn cael eu cyflwyno ar eu cyfer.

Gall awdurdodau lleol geisio lleoliad ar gyfer plentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol neu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu Lloegr, er mwyn diwallu eu hanghenion rhesymol. Fodd bynnag, ni all awdurdodau lleol osod dysgwr sydd ag ADY mewn ysgol annibynnol o'r fath oni bai eu bod yn fodlon ei bod yn abl i gyflwyno'r DDdY a nodir yn CDU y dysgwr. Bydd hyn yn lleihau'r risg y caiff dysgwyr ag ADY eu lleoli mewn ysgol annibynnol pan fo hynny'n amhriodol. Bydd Estyn yn monitro ysgolion annibynnol yng Nghymru bob blwyddyn, a bydd gan Estyn rôl hefyd yn sicrhau bod ysgolion annibynnol yn gallu darparu'r DDdY y maent wedi'u cofrestru i'w darparu. Rhaid i'r ysgol annibynnol hefyd fod ar gofrestr ysgolion annibynnol yng Nghymru neu gofrestr sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr.

Yn yr un modd, ni all awdurdodau lleol osod dysgwr mewn coleg arbenigol annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr, oni bai bod y coleg ar restr o golegau a sefydlwyd o dan ddarpariaethau a amlinellir yn y Ddeddf.

Hefyd, i raddau helaeth, mae'r Ddeddf yn ailddatgan y rhagdybiaeth ddeddfwriaethol bresennol sydd o blaid addysgu'r rheini sydd ag ADY yn ysgolion y brif ffrwd lle bynnag y bo'n bosibl. Mae hyn nid yn unig yn ategu polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ar fod yn gynhwysol, ond mae'n tanlinellu ein safbwynt y dylai disgwyliadau ar gyfer y rheini sydd ag ADY, a'r dyheadau ar eu cyfer, fod mor uchel â phosibl. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn hyrwyddo dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cydnabod nad yw mynychu ysgol brif ffrwd yn briodol mewn rhai achosion neu nad dyna sydd orau i'r plentyn. Nid yw'r ddyletswydd i ffafrio addysg brif ffrwd a gynhelir yn berthnasol, felly, mewn amgylchiadau o'r fath.

Er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddysgu gyffredinol yr awdurdod lleol yn parhau i fodloni anghenion plant a phobl ifanc yn eu hardal, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu'r rheolaidd y trefniadau a wneir ganddyn nhw (a chan gyrrff llywodraethu ysgolion yn eu hardaloedd) ar gyfer DDdY. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i'r angen posibl i sicrhau bod DDdY ar gael yn Gymraeg.

### System symlach sy'n achosi llai o wrthdaro

Wrth gael gwared â'r rhaniad artiffisial a chynhennus presennol rhwng plant a phobl ifanc sy'n cael datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a'r diogelwch statudol a ddaw yn sgil hynny, a'r rheini sydd ag anghenion na ystyrir yn ddigon difrifol neu gymhleth i roi cynllun a diogelwch statudol ar eu cyfer, bydd y Ddeddf yn cael gwared ag un o'r prif achosion gwrthdaro o fewn y system bresennol. Bydd y pwyslais yn y Ddeddf ar gyfraniad plant, eu rhieni a phobl ifanc yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a datblygu CDUau, yn arwain at fwy o gonsensws wrth gynllunio. Bydd darpariaethau'r Ddeddf ar CDUau hefyd yn arwain y ffordd at broses lai biwrocraidd a hirwyntog o gynllunio, a ddylai fod yn haws ei deall ac yn llai tebygol o greu gwrthdaro.

### Rhagor o gydweithredu

Mae'r Ddeddf yn darparu, lle bydd awdurdod lleol yng Nghymru yn gwneud cais am gymorth neu wybodaeth oddi wrth gyrrff eraill, gan gynnwys awdurdod lleol arall, corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach (ymhlith eraill), y mae ei angen arno er mwyn cyflawni ei swyddogaethau ADY, y bydd yn rhaid i'r corff hwnnw gydymffurfio â'r cais oni bai ei fod o'r farn y byddai gwneud hynny:

- a) yn anghydnavs â dyletswyddau'r corff ei hun; neu
- b) yn cael effaith andwyol ar sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer paratoi, adolygu neu ddiwygio CDUau ar yr un pryd â chynlluniau eraill sy'n ymwneud â'r dysgwr hwnnw. Nod hyn yw osgoi (lle bo'n briodol) dyblygu ymdrechion a dryswch sy'n gallu codi lle caiff sawl cynllun ei lunio ar gyfer yr un unigolyn, ac i'w gwneud yn bosibl alinio ac integreiddio prosesau cynllunio gwahanol lawer yn well.

Mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, ac i gydnabod y ffaith bod cyfran sylweddol iawn o'r grŵp hwn o blant yn debygol o fod ag ADY, mae'r Ddeddf yn rhoi'r cyfrifoldeb dros faterion ADY ar yr awdurdod lleol y mae'r plentyn dan ei ofal (oni bai bod y plentyn o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr) ac mae'n ei gwneud yn ofynnol cynnwys CDU yng nghynllun addysg personol y plentyn, os oes gan y plentyn ADY. Fel rheol, bydd y cynllun addysg yn rhan ofynnol o'i gynllun gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o blant, ond nid pob un (hy y rheini sydd o oed ysgol gorfodol neu'n iau) sy'n derbyn gofal – gweler adran 15 y Ddeddf. Bydd y darpariaethau hyn yn sicrhau bod cynlluniau ar gyfer anghenion addysgol y grŵp hwn o ddysgwyr sy'n agored i niwed yn cael eu symleiddio a'u cydgysylltu'n well.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd newydd ar fyrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ('cyrff y GIG'). Pan ofynnir iddynt, rhaid i'r cyrff hyn ystyried p'un a oes triniaeth neu wasanaeth sy'n debygol o helpu i fynd i'r afael ag ADY y dysgwr ac, os felly, rhaid i gorff y GIG sicrhau'r driniaeth neu'r gwasanaeth hwnnw. Rhaid cynnwys disgrifiad o'r driniaeth neu'r gwasanaeth wedyn yn CDU y dysgwr. Mae'r ddyletswydd hon yn gam pwysig ymlaen i sicrhau mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch pwy fydd yn darparu pa ddarpariaeth a nodir mewn CDU nag a geir yn achos datganiadau AAA ar hyn o bryd. Os bydd corff y GIG yn nodi y dylai'r driniaeth neu'r gwasanaeth gael eu darparu drwy'r Gymraeg, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r gwasanaeth neu'r driniaeth honno yn Gymraeg.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswydd newydd ar fyrddau iechyd yng Nghymru i benodi Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig. Rôl y swyddog hwn fydd cydlynu swyddogaethau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY, a allai gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod yna fodolau gwasanaeth yn eu lle o fewn y bwrdd iechyd; rhoi arweiniad o fewn y bwrdd iechyd i helpu pobl i gyflawni dyletswyddau perthnasol y bwrdd; cydgysylltu â phartneriaid; a chymell a hwyluso gwaith rhyngbroffesiynol a rhyngasiantaethol effeithiol er budd plant ag ADY. Bydd rolau'r Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig, y Cydlynnydd ADY a Swyddog Arweiniol ADY y Blynnyddoedd Cynnar yn helpu i hwyluso cydweithredu effeithiol rhwng addysg ac iechyd er mwyn gwella gwasanaethau i ddysgwyr.

Rhoddir pŵer penodol i gyrff iechyd amrywiol yng Nghymru a Lloegr hefyd, i'w ddefnyddio wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru ac sydd o dan oed ysgol gorfodol. Hynny yw, os bydd y corff yn dod i'r farn bod gan blentyn ADY (neu ei bod yn debygol bod ganddo/ganddi ADY), bydd y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r corff iechyd ddod â'r mater i sylw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn (neu yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod y mae'r plentyn dan ei ofal) os yw o'r farn mai dyna sydd orau i'r plentyn. Cyn gwneud hynny, rhaid iddynt roi gwybod i riant y plentyn beth yw eu barn a'u pŵer, a chynnig cyfle i drafod.

Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi'r Tribiwnlys i rannu â Gweinidogion Cymru adroddiadau gan awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a chyrrff iechyd ynghylch i ba raddau y maent yn cydymffurfio â gorchmynion ac ynghylch y camau a gymerwyd mewn ymateb i argymhellion ynghyd â gwybodaeth gysylltiedig arall. Gellid rhannu gwybodaeth hefyd am achosion o fethu â chydymffurfio â gorchmynion neu am fethiant cyrrff iechyd i gymryd camau mewn ymateb i argymhellion.

Bydd yr wybodaeth yn sicrhau bod modd monitro'r system, a hefyd bod camau yn cael eu cymryd lle bo'n briodol mewn ymateb i ddiffyg cydymffurfio. Bydd monitro a gwerthuso'r system mewn perthynas â chydymffurfiaeth o ddefnydd wrth asesu p'un a yw argymhellion tribiwnlys i gyrrff iechyd yn effeithiol.

### Osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau a allai godi rhwng plant, eu rhieni a phobl ifanc ar y naill law, a chyrrff addysgol ar y llall (sef cyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol) neu, yn achos anghytundebau am y DDdY a wneir, sefydliadau addysgol amrywiol. Mae hyn yn cynnwys rhoi mynediad i gymorth i ddatrys anghytundeb gan berson annibynnol. Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni yn ymwybodol o'r trefniadau hyn.

Mae datblygu a gweithredu trefniadau effeithiol i osgoi a datrys anghytundeb yn allweddol er mwyn cynyddu'r ymddiriedaeth sydd gan blant, pobl ifanc a rhieni yn y system a'i gwneud yn llai tebygol y byddant am arfer eu hawliau apelio ar lefel tribiwnlys. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y plant, eu rhieni a'r bobl ifanc yn ymwybodol nad yw'r trefniadau hyn yn effeithio ar eu hawliau i apelio i'r Tribiwnlys.

### Hawliau clir a chyson i apelio

Mae'r Ddeddf yn ailenwi ac yn ehangu cylch gwaith Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig presennol Cymru (TAAAC). Caiff TAAAC ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer parhau â chyfansoddiad TAAAC, ei aelodaeth a'i dâl a'i dreuliau. Mae'r enw newydd yn adlewyrchu nid dim ond ei rôl wrth benderfynu ar apelïadau mewn perthynas ag ADY ond hefyd y rôl a gyflawnir ar hyn o bryd gan Dribiwnlys AAA Cymru wrth benderfynu ar hawliau sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas ag ysgolion, swyddogaeth y bydd y Tribiwnlys yn dal i'w chyflawni. Ar hyn o bryd, dim ond y bobl ifanc hynny (nad ydynt eto yn 19 oed) sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion a gynhelir sydd â'r hawl i apelio i TAAAC mewn perthynas â'u AAA. Bydd y Ddeddf yn cyflwyno hawliau apelio tecach drwy ymestyn yr hawl hon i bob person ifanc hyd at 25 oed sydd yn yr ysgol neu'n mynychu addysg bellach.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth i 'gyfaill achos' gael ei benodi drwy'r Tribiwnlys, lle nad oes gan blentyn allu digonol.

Mae'r Ddeddf yn galluogi plentyn neu berson ifanc hyd at 25 oed, neu riant plentyn, i apelio yn erbyn materion penodol i'r Tribiwnlys lle bydd awdurdod lleol neu gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach wedi gwneud penderfyniad mewn perthynas ag ADY unigolyn, neu wedi paratoi neu'n cynnal CDU yr unigolyn hwnnw. Yn achos awdurdod lleol, byddai hyn yn cynnwys ailystyried penderfyniadau corff llywodraethu ysgol a diwygio cynlluniau a gynhelir gan gorff llywodraethu ysgol.



Mae gorchmynion y Tribiwnlys yn rhwymo awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach. At hynny, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol neu gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach adrodd yn ôl i'r Tribiwnlys ar y camau y mae wedi'u cymryd er mwyn cydymffurfio â Gorchymyn.

Yn ogystal â gorchmynion sy'n rhwymo awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach, mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r Tribiwnlys wneud argymhellion i gyrff y GIG. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG adrodd yn ôl i'r Tribiwnlys ar y camau a gymerir mewn ymateb i'w argymhellion.

Er mai yn niffyg popeth arall y dylid defnyddio'r Tribiwnlys, bydd yr hawl i apelio i dribiwnlys annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau rhwymol yn sicrhau bod y system newydd ar gyfer cefnogi ADY yn drylwyr ac yn ennyn hyder plant, eu rhieni a phobl ifanc. Bydd hefyd yn helpu i ofalu bod y dyletswyddau mewn perthynas â dysgwyr ag ADY yn cael eu cyflawni'n iawn; bydd yn diogelu hawliau plant a phobl ifanc ac yn sicrhau mwy o degwch. Mae'r Ddeddf hefyd yn creu rôl Dirprwy Lywydd a fydd yn gwneud y tribiwnlys yn fwy effeithlon yn weithredol, yn fwy cynaliadwy ac yn gwella materion parhad busnes.

### Cod gorfodol

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod ar ADY. Bydd y Cod yn berthnasol i'r rheini sydd â swyddogaethau o dan y Ddeddf hon a bydd yn gallu gosod:

- gofynion gorfodol (mewn perthynas â materion penodol a nodir yn y Ddeddf) y bydd yn rhaid i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol weithredu yn unol â nhw;
- canllawiau y bydd yn rhaid i'r cyrrff hynny ac eraill sydd â swyddogaethau o dan y Ddeddf roi sylw dyledus iddynt.

Bydd creu Cod fel hyn yn helpu i sicrhau bod yna gyfres o ffiniau clir, y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol, ar gyfer y system ADY, y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu weithredu o'u mewn. Bydd y Cod yn targedu ymarferwyr fel y gallant ddeall a gweithredu'r system ADY newydd. Bydd y Cod hefyd yn cynnwys canllawiau statudol ac arferion gorau i'w gwneud yn bosibl i ymarferwyr weithredu'r system newydd yn effeithiol a dilyn eu dyletswyddau cyfreithiol o dan y drefn newydd.

### System ddwyieithog

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswyddau penodol mewn perthynas â DDdY drwy'r Gymraeg. Rhaid i wasanaethau ystyried a oes angen DDdY drwy'r Gymraeg ar y plentyn neu'r person ifanc. Os oes, rhaid cofnodi hynny yn y CDU, a rhaid i wasanaethau gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth drwy'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf yn cynnwys mecanwaith i gael gwared â'r prawf 'pob cam rhesymol' drwy reoliadau, er mwyn i'r dyletswyddau i ddarparu DDdY drwy'r Gymraeg fod yn absoliwt.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys cyfres o ddyletswyddau strategol i wella'r DDdY sydd ar gael drwy'r Gymraeg, gan gynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru adolygu digonolrwydd DDdY drwy'r Gymraeg bob pum mlynedd. Nod y dyletswyddau hyn, o'u cymryd ochr yn ochr â mentrau ehangach, yw symud i gyfeiriad system ADY wirioneddol ddwyieithog.

Mae'r Ddeddf hefyd yn sicrhau bod y ddyletswydd i ystyried a yw darpariaeth Gymraeg yn

briodol yn un barhaus ac nad yw'n gyfyngedig i'r adeg pan fydd CDU wedi'i baratoi yn unig.

## Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Credwn y bydd y Ddeddf yn cyflawni'r effeithiau positif canlynol ar gyfer dysgwyr (o ran hawliau plant) o'u geni hyd nes y byddant yn 25 mlwydd oed:

- **darparu system unedig a chyfartal** ar draws yr ystod oedran 0 i 25, gwahanol ddarparwyr addysg a gwahanol lefelau angen, gan waredu, felly, unrhyw anghysondeb ac annhegwch (erthyglau 1 a 3);
- **cyflwyno proses sy'n fwy hyblyg ac sy'n ymateb yn fwy** o asesu parhaus, gan alluogi'r ddarpariaeth ar gyfer y dysgwr unigol i ddatblygu dros amser, a hynny'n unol ag anghenion sy'n newid (erthyglau 28 a 29);
- **sicrhau dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar unigolion**, rhoi safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc wrth wraidd y broses a'u cynnwys hwy a'u teuluoedd yn y broses gynllunio, ymyrryd ac adolygu o'r dechrau'n deg (erthyglau 12 ac 16);
- **darparu gwell cefnogaeth a mynediad at wybodaeth a chyngor** ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn deall y broses sydd ynghlwm wrth ADY a gwneud dewisiadau cytbwys (erthygl 13);
- **osgoi dyblygu** sy'n deillio o gynlluniau sy'n gwneud yr un peth i bob pwrpas ac integreiddio, lle y bo'n bosibl ac yn briodol, gynlluniau ac ymyriadau presennol a gyflenwir ar gyfer plant a phobl ifanc (erthygl 3);
- **gwella cydweithio** rhwng asiantaethau er mwyn cynllunio eu hymyriadau, cytuno ar flaenoriaethau, a sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu darparu'n brydlon er mwyn gwneud gwahaniaeth (erthyglau 3 a 23);
- **ei gwneud hi'n llai tebygol fod anghydfodau'n codi** drwy ddatblygu gwaith partneriaeth mwy cadarn gyda rhieni a hybu diwylliant o dryloywder a ddylai annog rhagor o ymddiriedaeth rhwng rhieni, darparwyr addysg ac awdurdodau lleol (erthyglau 12 a 13);
- **lleihau nifer yr apelau** drwy sicrhau bod modd datrys anghytundebau cyn gynted â phosibl (erthyglau 1 a 12);
- **cadw ac estyn hawliau apelio** i'r Tribiwnlys fel cam diogelu y gellir ei ddefnyddio yn y pen draw o safbwynt digonolrwydd y gefnogaeth a gaiff ei rhoi i bob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY, ac nid dim ond y rhai sydd ag anghenion cymhleth (erthyglau 3 a 4).

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ar gyfer plant a phobl ifanc (a'u teuluoedd) yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, sef *Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol*, ac yn ystod yr ymgynghoriad ar Fil drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ("y Bil drafft").

Yn ystod haf 2014, aeth Llywodraeth Cymru ati i gomisiynu contractwr allanol er mwyn clywed barn, teimladau a safbwyntiau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ynghylch y cynigion deddfwriaethol a nodir yn y Papur Gwyn. Defnyddiwyd gwahanol ddulliau ymgysylltu yn

ystod y gweithdai gan gynnwys chwarae, sesiynau trafod a dadleuon ar sail y fersiwn 'hawdd ei darllen' o'r papur ymgynghori: Cafodd y fersiwn hawdd ei darllen hefyd ei defnyddio gan blant a phobl ifanc mewn ysgolion a cholegau ar gyfer cyflwyno eu sylwadau. Defnyddiwyd canlyniadau'r ymarfer ymgynghori hwn fel sail i'r gwaith o ddatblygu polisi, er mwyn llunio'r Bil drafft. Cafodd crynodebau o'r ymatebion i'r Papur Gwyn a'r gweithdai eu cyhoeddi ar 14 Hydref 2014<sup>1</sup>.

Ar 6 Gorffennaf 2015, cyhoeddwyd Bil drafft a oedd yn adeiladu ar y Papur Gwyn. I ategu'r ymgynghoriad, a ddaeth i ben ar 18 Rhagfyr 2015, cyhoeddwyd hefyd fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r amserlen fras ar gyfer gweithredu'r system newydd.

Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc ynghyd ag esboniad hawdd ei ddarllen o'r Bil drafft. Defnyddiwyd y dogfennau hyn gan contractwr, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, i helpu i gyflwyno gweithdai wedi'u teilwra i blant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Cynhaliwyd cyfanswm o 23 o weithdai ledled Cymru.

Yn ystod y gweithdai, casglwyd barn plant a phobl ifanc ar wahân i farn eu rhieni/gofalwyr i sicrhau bod eu barn yn cael eu cofnodi'n gywir. Cynhaliwyd 19 o weithdai i blant a phobl ifanc, mewn 16 o leoliadau, a chymerodd 222 ran. Cynhaliwyd y gweithdai mewn ysgolion arbennig, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, lleoliadau addysg bellach ac uned cyfeirio disgyblion, yn ogystal ag ymhlith grŵp o blant oedd yn derbyn gofal a phlant oedd yn cael eu haddysgu gartref. Roedd lefel gyffredinol y gefnogaeth i'r cynigion yn uchel iawn; y brif feirniadaeth a godwyd gan blant a phobl ifanc oedd y diffyg ffocws ar ddarpariaeth iechyd o fewn y diwygiadau arfaethedig.

Cynhaliwyd pedwar gweithdy i oedolion oedd â buddiant uniongyrchol yn y ddeddfwriaeth. Cymerodd 45 o oedolion ran yn y rhain. Roeddent yn cynnwys gofalwyr maeth a rhieni plant oedd: â datganiad AAA; mewn addysg gynnar; ac yn cael eu haddysgu gartref. Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth gref i'r newidiadau arfaethedig; roedd y brif feirniadaeth yn ymwneud â'r adnoddau oedd ar gael i gyflwyno'r system arfaethedig.

Roedd pob gweithdy wedi'i strwythuro i roi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i'r rheini oedd yno iddynt allu gwneud penderfyniadau wrth ymateb i ddeg cwestiwn penodol yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn adlewyrchu deg prif nod y diwygiadau a oedd wedi'u nodi ar y pryd. Er bod y lefel gefnogaeth yn uchel yn gyffredinol, roedd yna wahaniaeth rhwng ymatebion y plant/bobl ifanc a'r oedolion.

Defnyddiwyd safbwyntiau'r plant, y bobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr, ynghyd â'r ymatebion a ddaeth i law drwy'r ymgynghoriad ehangach, i fireinio'r Bil, ac i ddatblygu'r Cod drafft a'r rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY. Mae swyddogion o'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos ar ddatblygu darpariaethau iechyd y Ddeddf a'r rhaglen ddiwygio ehangach. Roedd y gwaith datblygu hwn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r prif bryderon a godwyd gan y plant a'r bobl ifanc.

Yn ei Hadroddiad Blynyddol 2015-16 (Hydref 2016), gwnaeth y Comisiynydd Plant yr argymhelliad canlynol: *'Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth newydd a Chod Ymarfer cadarn sy'n cyflawni ei hymrwymiad i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Dylai gryfhau'r cydlyniad, y ddarpariaeth a'r gefnogaeth a roddir i blant a*

<sup>1</sup> Gallwch ofyn am gopïau o'r dogfennau hyn o [SENReforms@llyw.cymru](mailto:SENReforms@llyw.cymru)

*phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys cyflwyno dyletswydd statudol i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG ddarparu cefnogaeth ac i gryfhau pwerau Tribiwnlys Addysg Cymru.'*

Mae'r Ddeddf, y Cod drafft a'r rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY wedi helpu i weithredu'r argymhelliad hwn.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i drafod yn helaeth â Swyddfa'r Comisiynydd Plant yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Bil a'r Cod ADY drafft. Roedd Swyddfa'r Comisiynydd wedi'i chynrychioli ar Grŵp Datblygu Cynnwys y Cod, a wnaeth helpu i ddatblygu ail fersiwn y Cod drafft. Darparwyd hwn ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Chwefror 2017 i helpu'r Cynulliad yn ei waith o graffu ar y Bil. Mae adborth y Pwyllgor ar y Cod ADY drafft a'r dogfennau ategol wedi'i ystyried ac rydym yn parhau i'w ddefnyddio fel sail i'r gwaith datblygu polisi sy'n parhau mewn perthynas â'n gwaith diwygio.

Cyhoeddwyd Asesiad Effaith ar Hawliau Plant ar yr un pryd â'r Bil drafft, a chyhoeddwyd fersiwn arall wrth gyflwyno'r Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr. Adolygwyd yr asesiad effaith yng ngoleuni gwelliannau Cam 2 a datblygiadau polisi pellach, ac adolygwyd yr asesiad effaith hwn, yn ei dro, yng ngoleuni gwelliannau Cam 3 a datblygiadau polisi pellach. Mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolhome/additional-learning-special-educational-needs/transformation-programme/legislation-and-statutory-guidance/?lang=cy>

Lluniwyd esboniad hawdd ei ddarllen o'r Bil gan Anabledd Dysgu Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2017.

<https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-01/151019-easy-read-explanation-cy.pdf>

Mae ein cynigion yn cefnogi Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2015. Amcan 3 y strategaeth yw: *Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tlodi, drwy wella canlyniadau'r tlotaf.* Nod ein cynigion yw gwaredu anghydraddoldebau ym maes addysg drwy sicrhau bod modd i bob plentyn a pherson ifanc gyflawni hyd eithaf ei allu. Noda cyhoeddiad Llywodraeth Cymru sef 'Ailysgrifennu'r Dyfodol' fod dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ddwywaith yn fwy tebygol o fod ag AAA. Bydd gwella'r system yn cael effaith anghymesur o gadarnhaol ar blant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel.

Bydd defnyddio ADY fel term unigol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 mlwydd oed yn helpu i osgoi rhywfaint o'r stigma sy'n gysylltiedig â'r termau presennol 'anghenion addysgol arbennig' ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu' a bydd yn nodi toriad clir oddi wrth y systemau presennol yr ystyrir gan lawer fod angen eu diwygio'n sylweddol.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc a allai ddeillio o'r cynigion hyn.

### **Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?**

Mae'r gwaith hwn yn cefnogi gwaith erthyglau canlynol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

### **Erthygl 1: Mae gan bob un sydd dan 18 oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.**

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system gyfartal er mwyn bodloni anghenion plant o oed ysgol gorfodol neu'n iau sydd ag ADY, a phobl ifanc sydd ag ADY hyd at 25 oed yng Nghymru sydd yn yr ysgol neu addysg bellach. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r hawl i blant a phobl ifanc, sydd hyd at 25 oed ac sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach neu sefydliadau ôl-16 arbenigol, neu'n dymuno mynychu sefydliadau o'r fath, gael apelio, gan ddarparu hawliau apelio i'r grŵp hwn o ddysgwyr am y tro cyntaf.

### **Erthygl 2: Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.**

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i blant a phobl ifanc sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru, sydd rhwng 0 a 25 mlwydd oed, o oed ysgol gorfodol neu'n iau, neu dros oed ysgol gorfodol ac yn yr ysgol neu mewn addysg bellach. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n mynychu lleoliad annibynnol (p'un a yw'r rhieni yn ei gyllido neu beidio), sy'n cael eu haddysgu gartref, sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol a'r rheini sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys achosion lle gosodwyd plentyn neu berson ifanc dan gadwad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a bydd Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, yn gallu sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sydd dan gadwad oherwydd iechyd meddwl gwael yn parhau i gael y DDdY sydd ei hangen arnynt. Mae rhai darpariaethau hefyd yn berthnasol i blant neu bobl ifanc sy'n byw yn Lloegr, sy'n mynd i sefydliadau addysg bellach neu ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Bydd y Ddeddf yn sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc ag ADY, sydd o oed ysgol gorfodol neu'n iau, neu dros oed ysgol gorfodol ac yn yr ysgol neu mewn addysg bellach, hawl i CDU statudol a fydd yn cefnogi eu dysgu, ni waeth pa mor ddifrifol neu gymhleth yw eu hanghenion. Bydd hyn yn sicrhau rhagor o gysondeb a dilyniant, a bod darpariaethau a hawliau'n cael eu diogelu, ni waeth pa mor gymhleth neu ddifrifol yw'r anghenion.

### **Erthygl 3 – Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.**

Bydd y Ddeddf yn cefnogi camau pennu cynnar ac ymyriadau prydlon, gan sicrhau bod modd i bob plentyn a pherson ifanc ag ADY gyflawni hyd eithaf ei allu addysgol. Er mwyn hyrwyddo cydweithredu a sicrhau bod sefydliadau'n gweithio tuag yr hyn sydd orau i bob plentyn, pan fydd awdurdod lleol yn gofyn am gymorth neu wybodaeth gan gorff penodedig arall – gan gynnwys, er enghraifft, awdurdod lleol arall, corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, neu gyrff iechyd penodol, - wrth arfer eu swyddogaethau o ran ADY, mae'n rhaid i'r corff hwnnw gydymffurfio â'r cais (oni bai bod yna amgylchiadau penodedig). Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar a bod y cymorth iawn yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc.

Yn ogystal, bydd cyrff y GIG yng Nghymru o dan ddyletswydd newydd i ystyried, pan ofynnir iddynt, p'un a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o helpu i fynd i'r afael ag ADY y dysgwr. Rhaid cynnwys triniaeth neu wasanaeth o'r fath yn CDU y dysgwr a rhaid i'r corff iechyd sicrhau bod y driniaeth neu'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

Bydd rôl newydd y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig a rôl y Cydlynnydd ADY yn helpu i feithrin gwell cysylltiadau ac arferion gwaith rhwng asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant, er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i'r plentyn neu'r person ifanc.

Y bwriad yw y bydd y Cod ADY, a fydd yn cyd-fynd â'r Ddeddf ac yn ei hategu, yn cynnwys rhagor o gyfarwyddyd i weithwyr proffesiynol er mwyn cefnogi gwaith amlasiantaeth effeithiol.

Er bod y Ddeddf, i raddau helaeth, yn ailadrodd y ddyletswydd ddeddfwriaethol sydd eisoes yn bod o blaid addysgu'r rheini sydd ag ADY yn ysgolion prif ffrwd a gynhelir (gyda rhai eithriadau), mae hefyd yn hyrwyddo dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r Ddeddf, felly, yn cydnabod nad yw mynychu ysgol brif ffrwd a gynhelir yn briodol mewn rhai achosion o ystyried yr hyn sydd orau i'r plentyn. Mae'n galluogi awdurdod lleol, felly, i osod plentyn y tu allan i'r sector addysg brif ffrwd a gynhelir mewn rhai amgylchiadau o'r fath.

#### **Erthygl 4 – Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.**

Yn sgil Mesur Addysg (Cymru) 2009, diwygiwyd Deddf Addysg 1996 a Deddf Cydraddoldeb 2010 i roi hawl i blentyn sydd mewn ysgol ynghyd â'i rieni gael gwneud apêl i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ynghylch penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol perthnasol ynghylch AAA y plentyn neu honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion. Rhoddwyd darpariaethau Mesur 2009 ar waith drwy gynllun peilot cychwynnol mewn dwy ardal awdurdod lleol yng Nghymru (Caerfyrddin a Wrecsam). Cyflwynwyd y darpariaethau hyn ar draws Cymru gyfan ym mis Ionawr 2015, yn dilyn gwerthusiad cadarnhaol o'r rhaglenni peilot.

Mae'r Ddeddf yn parhau i gynnig yr hawl i blant a'u rhieni apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn ystod o benderfyniadau gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â materion ADY, CDUau a gwahaniaethu.

Bydd darpariaethau'r Ddeddf yn cefnogi ymhellach ac yn hybu hawliau plant a phobl ifanc drwy ehangu hawliau apelio i bob unigolyn hyd at 25 oed sydd yn yr ysgol neu mewn addysg bellach.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar y rheini sy'n cyflawni swyddogaethau'r Ddeddf o ran cynnwys a chefnogi plant a'u rhieni, a phobl ifanc yn y penderfyniadau a wneir o dan y Ddeddf, gan gynnwys wrth ddatblygu'r CDU.

Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i 'gyfaill achos' gael ei benodi gan y Tribiwnlys lle nad oes gan y plentyn allu digonol. Er y cydnabyddir mai eu rhieni fydd yn cyflwyno apelau ar ran eu plant fel rheol, lle na fydd hyn yn digwydd bydd cael cyfaill achos yn golygu bod y plentyn yn dal i allu arfer hawliau apelio a hawliau eraill o dan y Ddeddf.

Rhoddir yr hawl i bobl ifanc sydd dros oed ysgol gorfodol, sydd ag ADY wneud eu penderfyniadau eu hunain mewn perthynas ag ADY, gan gynnwys yr hawl i beidio â chydysnio i benderfyniad am eu ADY gael ei gymryd gan sefydliad addysgol neu awdurdod lleol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad oes angen i'r bobl ifanc hyn fod mewn addysg ac y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt benderfynu ar eu dyfodol addysgol eu hunain. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â phobl ifanc sydd heb allu digonol i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

**Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.**

Bydd y Ddeddf yn sicrhau bod llais y plentyn a'r person ifanc wrth wraidd unrhyw benderfyniadau a gaiff eu gwneud yn eu cylch a bydd y gwaith cynllunio'n sicrhau bod eu ADY yn cael eu bodloni. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i roi sylw dyledus i erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wrth gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r Ddeddf.

Mae'n adeiladu ar waith blaenorol er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei barchu, fel Mesur Addysg (Cymru) 2009, y cyfeirir ato uchod. Fel y nodwyd, mae darpariaethau'r Ddeddf yn ehangu hawliau apelio'r Mesur hwnnw i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed.

Mae'r Ddeddf hon yn cryfhau'r hawliau hynny drwy ddarparu bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried, er enghraifft wrth baratoi CDU ac wrth ei adolygu. Bydd y Cod ADY yn rhoi mwy o fanylion ynghylch yr hyn a olygir wrth ganolbwyntio ar unigolion wrth gynllunio. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfeirio plant a phobl ifanc at wasanaeth eirioli annibynnol ar gais. Mae'n bosibl y bydd y Cod ADY yn gosod gofynion pellach ac yn rhoi canllawiau mewn perthynas â'r gwasanaethau eirioli annibynnol hyn, gan gynnwys, os oes angen, eu hymwneud â gwasanaethau eirioli annibynnol a ragnodir mewn rhannau eraill o'r ddeddfwriaeth.

Fel yr amlinellir yng Ngham 2, wrth i Lywodraeth Cymru ymgynghori ynghylch ei chynigion deddfwriaethol ym Mhapur Gwyn 2014 ac ynghylch y Ddeddf yn ystod 2015, rhoddodd gyfle i blant, pobl ifanc a'u gofalwyr/rhieni rannu eu barn. Roedd hyn yn cynnwys darparu dogfennau ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc; llunio esboniad hawdd ei ddarllen o'r Ddeddf; a chynnal gweithdai ledled Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc a'u gofalwyr/rhieni er mwyn cael eu barn ar y cynigion. Hyrwyddwyd y deunyddiau ymgynghori drwy bartneriaid y trydydd sector, gwefan Llywodraeth Cymru a'r cyfryngau cymdeithasol. Comisiynodd Llywodraeth Cymru gontractwyr allanol i sicrhau bod dysgwyr â lefelau anghenion amrywiol (a'u gofalwyr/rhieni) o ystod o leoliadau addysg yn rhan o'r drafodaeth. Ystyriwyd safbwyntiau plant, pobl ifanc a'u gofalwyr/rhieni wrth fireinio'r Bil ac maent yn parhau i gael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu'r pecyn ehangach o ddiwygiadau ymhellach, gan gynnwys datblygu drafft terfynol y Cod ADY.

Mae'r esboniad hawdd ei ddarllen o'r Bil a gyflwynwyd hefyd yn ategu erthyglau 12 ac 13 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar roi'r hawl i blant a phobl ifanc ag ADY gael mynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw a hawl i gael mynegi eu barn yn gyffredinol.

**Erthygl 13 – Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill.**

Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol drefnu bod plant, pobl ifanc ac eraill yn derbyn gwybodaeth a chyingor am ADY a'r system

a ddisgrifir yn y Ddeddf. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i hysbysu pobl amrywiol ynghylch y trefniadau hyn. Mae yna ddyletswyddau hefyd ar gyrff llywodraethu i roi gwybod am y trefniadau i'w dysgwyr ac eraill.

Bydd y trefniadau hyn yn helpu i sicrhau bod cyfle i blant a phobl ifanc fynegi eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd (gweler erthygl 12). Mewn termau cyffredinol, rhaid rhoi gwybodaeth o'r fath i blant sydd â'r gallu i ddeall y mater, ac mae yna ddarpariaeth i'w rhoi i gyfeillion achos mewn achosion lle nad oes gan y plentyn y gallu hwnnw. Mae yna weithdrefnau hefyd i ganiatáu i blentyn herio dyfarniad ynghylch ei allu, drwy wneud cais i'r Tribiwnlys yn y pen draw.

Fel y nodwyd uchod, mae'r esboniad hawdd ei ddarllen o'r Bil a gyflwynwyd hefyd yn ategu erthyglau 12 ac 13 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar roi'r hawl i blant a phobl ifanc ag ADY gael mynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw a hawl i gael mynegi eu barn yn gyffredinol.

### **Erthygl 16 – Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.**

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i reoliadau gael eu gwneud ynghylch datgelu neu ddefnyddio gwybodaeth at ddibenion sy'n gysylltiedig ag addysg y plentyn neu'r person ifanc. Mae darpariaethau'r Ddeddf a'r pŵer hwn i reoleiddio yn cydnabod bod yna achlysuron pan fyddai'n briodol neu'n angenrheidiol rhannu gwybodaeth am unigolion heb gydsyniad yr unigolyn (neu eu rhieni yn achos plant). Er enghraifft, gan y byddai'n ei gwneud yn bosibl darparu addysg sy'n addas ar gyfer plentyn penodol o oed ysgol gorfodol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys cyfyngiadau priodol ar ddatgelu gwybodaeth sy'n parchu preifatrwydd. Er enghraifft, mae adran 57 yn rhoi pŵer i gyrff iechyd penodol i roi gwybod i awdurdodau lleol o'i farn bod gan blentyn sydd o dan oed ysgol gorfodol ADY, neu y gallai fod ganddo ADY, ond dim ond ar ôl trafod y mater gyda'r rhiant, ac os yw'n fodlon mai dyna sydd orau i'r plentyn. Bydd cyfreithiau eraill ar rannu gwybodaeth a diogelu data hefyd yn berthnasol.

### **Erthygl 23 – Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.**

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wrth gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r Ddeddf. Mae hyn yn golygu y bydd awdurdodau lleol a chyrrff y GIG yn rhoi sylw i'r confensiynau wrth wneud penderfyniadau strategol yn unol â'r Cod ADY.

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth y bydd gan berson ADY os oes ganddo ef neu ganddi hi anhawster neu anabledd dysgu sy'n golygu bod angen DDdY.

Mae'n darparu bod gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson dros yr oedran hwnnw anhawster neu anabledd dysgu os yw ef neu hi:

- yn wynebu llawer mwy o anhawster wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o ddysgwyr eraill o'r un oedran,
- ag anabledd sy'n ei atal neu'n ei gwneud hi'n fwy anodd iddo ddefnyddio



cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o'r math a ddarperir i ddysgwyr eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd o fewn y sector addysg bellach.

Ystyrir bod gan blentyn o dan oed ysgol gorfodol anhawster neu anabledd dysgu os yw'n debygol, os na chynigir DDdY, y byddai'n cael anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion yn ystod ei gyfnod gorfodol yn yr ysgol.

Bydd gan y plant a'r bobl ifanc hynny sydd yn yr ysgol neu addysg bellach, sydd ag ADY hawl i dderbyn CDU ynghyd â'r DDdY sydd wedi'i nodi ynddo.

Os na all anghenion rhesymol plentyn neu berson ifanc gael eu bodloni oni bai bod yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau darpariaeth benodol, er enghraifft lle mewn ysgol annibynnol benodol a/neu lety er mwyn gallu mynychu sefydliad preswyl penodol (efallai oherwydd bod gan blentyn neu berson ifanc anabledd ac ADY difrifol a/neu gymhleth), rhaid i'r awdurdod lleol (yn amodol ar rai amodau eraill) nodi'r ddarpariaeth honno yn y CDU a'i sicrhau.

Bydd y Ddeddf yn atgyfnerthu'r drefn gofrestru bresennol er mwyn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol bod plentyn neu berson ifanc ag ADY wedi'i osod mewn lleoliad priodol.

**Erthygl 28 – Mae gan blant yr hawl i addysg, Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.**

Bydd y Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer system gymorth sy'n galluogi plant a phobl ifanc sydd mewn ysgol neu addysg bellach yng Nghymru hyd at 25 oed, sydd ag ADY, i gael manteisio ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddyn nhw a'u cyfoedion, ac elwa'n llawn arnynt.

**Erthygl 29 – Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.**

Mae darpariaethau'r Ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael cymorth i gyflawni hyd eithaf ei allu. Bydd y CDU statudol yn helpu i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY, mewn addysg orfodol ac addysg bellach, yn derbyn y ddarpariaeth sydd ei hangen arno i wneud hynny.

#### **Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog**

Mae'r cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn cadarnhau bod yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gwblhau. Nid oes unrhyw wrthdaro ag erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'i nodi.

#### **Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad**

Caiff yr Asesiad diwygiedig hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant ei gyhoeddi ar wefan Trawsnewid y System ADY ochr yn ochr â'r fersiwn derfynol o Ddeddf Anghenion Dysgu

Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r fersiwn derfynol o'r Memorandwm Esboniadol.

### Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Caiff yr effaith ar hawliau'r plentyn a'r person ifanc ei hadolygu'n rheolaidd.

Wrth i'r rhaglen drawsnewid ehangach gael ei datblygu, ac i'r system ADY newydd gael ei gweithredu, rhoddir ystyriaeth bellach i effaith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredol, cynhelir gwerthusiad o effaith y Ddeddf i fonitro i ba raddau y mae'r newidiadau deddfwriaethol a'r newidiadau polisi ehangach yn ymsefydlu ac yn effeithio ar ddeilliannau dysgwyr. Mae astudiaeth yn cael ei chynnal ar hyn o bryd a fydd yn llinell sylfaen i asesu'r effaith yn y dyfodol.

### Cyllidebau

<b>O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?</b>	<b>Nac oes</b>
<b>Rhowch unrhyw fanylion:</b> Nid yw'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi nodi unrhyw effaith ar y gyllideb. Mae dadansoddiad cynhwysfawr o'r costau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf wedi'i amlinellu yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, sy'n rhan o'r Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Ddeddf.	

### Monitro ac Adolygu

<b>A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?</b>	<b>Oes</b>
<b>Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu</b>	<b>Monitro parhaus yn ystod y cyfnod gweithredu, ac adolygiad bum mlynedd ar ôl dechrau gweithredu</b>

**Gweler y dudalen  
nesaf am Restr  
Gryno o erthyglau'r  
CCUHP**





Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gyntdeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Ar 16 Rhagfyr 1991, cytunodd Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn cael yr holl hawliau fel y'u rhestrwyd yn y confensiwn.

Cafodd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' gefnogaeth unfrydol ar draws y pleidiau pan basiwyd ef yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011. Cafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011 a daeth i rym ar 16 Mai 2011.

Mae'n rhoi dyletswydd ar Weiridogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd yn yr CCUHP a'i brotocolau dewisol.

Mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'r wybodaeth a geir yma yn ymdrin ag erthyglau 1-42 sy'n cyflwyno sut y dylai plant gael eu trin.

I gael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i:  
Wefan CCUHP Llywodraeth Cymru:  
[www.ccuhp.gov.uk](http://www.ccuhp.gov.uk)

Clic - y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i Bobl Ifanc:  
[www.cliconline.co.uk/cym/newyddion](http://www.cliconline.co.uk/cym/newyddion)

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' yn:  
<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents>

# CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

[www.ccuhp.gov.uk](http://www.ccuhp.gov.uk)



## Erthygl 1

Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

## Erthygl 2

Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei greffydd, ei alluedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei dddeud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

## Erthygl 3

Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

## Erthygl 4

Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

## Erthygl 5

Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dylfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n brodol.

## Erthygl 6

Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

## Erthygl 7

Mae gan bob plentyn hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfreithiol, hawl i genedigrwydd a hawl i adnabod ei rieni ac, i'r graddau sy'n bosibl, i dderbyn gofal ganddynt.

## Erthygl 8

Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedigrwydd a chymrau teulu.

## Erthygl 9

Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rieni oni yw hyn er eu les nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

## Erthygl 10

Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall y rieni a'r plant gadw mewn cysylltiad neu ddi-dod at ei gilydd fel teulu.

## Erthygl 11

Dylai llywodraethau gymryd camau i gadw plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

## Erthygl 12

Mae gan blant yr hawl i dddeud eu barn ynghylch yr hyn a ddybiai ddioglydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

## Erthygl 13

Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidio iddyn nhw ac i eraill.

## Erthygl 14

Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rieni arwain eu plant yn y materion hyn.

## Erthygl 15

Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, oni yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

## Erthygl 16

Mae gan blant yr hawl i brafatwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

## Erthygl 17

Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfrngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.

## Erthygl 18

Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

## Erthygl 19

Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriaeth ac esgeulustod gan eu rieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hól.

## Erthygl 20

Rhaid i bobl sy'n parhau eu crefydd, eu diwylliant a'u iaith edrych ar ôl plant na all eu rieni ofalu amdanynt.

## Erthygl 21

Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cymhwyso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle y'u ganwyd neu'n cael eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

## Erthygl 22

Dylai plant sy'n dod i wlad fel fforduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

## Erthygl 23

Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd iawn ac amibynnol.

## Erthygl 24

Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddiwr glân, bywyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

## Erthygl 25

Dylai sefydlu plant y mae eu hawndrodol lleol yn hytrach na'u rieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.

## Erthygl 26

Dylai'r Llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

## Erthygl 27

Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hangenion corfforol a meddykyl. Dylai'r Llywodraeth helpu rieni na allant ffordio darparu hyn.

## Erthygl 28

Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai ddsyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

## Erthygl 29

Dylai addysg ddatblygu personolaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

## Erthygl 30

Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan hysgrifid y bobl neu beidio.

## Erthygl 31

Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

## Erthygl 32

Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.

## Erthygl 33

Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyflurio peryglus.

## Erthygl 34

Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag camdriaeth rywidi.

## Erthygl 35

Dylai'r Llywodraeth ofalu na chaff plant eu cipio neu eu gwerthu.

## Erthygl 36

Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

## Erthygl 37

Ni ddylid trin plant sy'n toni'r gyfraith yn greulon. Ni ddylid eu rhoi mewn carchar gydag oedolion a dylid eu cadw mewn cysylltiad â'u rieni.

## Erthygl 38

Ni ddylai llywodraethau adael i blant dan bymtheg oed ymuno â'r fyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arbennig.

## Erthygl 39

Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-barch.

## Erthygl 40

Dylai plant a gyhuddir o domi'r gyfraith dderbyn help cyfreithiol. Dylid defnyddio deddfyddau o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

## Erthygl 41

Os yw cyfreithiau gwlad arbennig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'r Confensiwn, yna dylai'r cyfreithiau hynny aros.

## Erthygl 42

Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.